# LC1410

| ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU | LEGISLATION COMMITTEE REPORT |
|---|---|

## Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Sylweddau Annymunol Penodol) (Cymru) 2006

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Bwydydd Anifeiliaid (Cymru) 2006 ("y Rheoliadau Bwydydd Anifeiliaid") a Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Hylendid a Gorfodi) (Cymru) 2005 ("y Rheoliadau Hylendid Bwyd Anifeiliad"). Diben y diwygiadau yw gweithredu, o ran Cymru, amrywiol Gyfarwyddebau'r Gymuned Ewropeaidd sy'n ymwneud â sylweddau annymunol mewn bwydydd anifeiliaid.

## Rheol Sefydlog 11.7

Nodwyd y pwynt canlynol i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7.

Mae testun y Rheoliadau hyn yn ddwyieithog, ond mae'r Atodlenni, (sy'n dechnegol eu natur) yn Saesneg yn unig ar wahân i'r penawdau. Mae hyn yn gyson â'r patrwm drafftio a ddefnyddiwyd wrth ddrafftio'r Rheoliadau Bwydydd Anifeiliaid y maent yn eu diwygio. [Rheol Sefydlog 11.7(viii)]

## Sylwadau

Hysbyswyd y cyfreithiwr a ddrafftiodd y Rheoliadau am fân wall teipograffyddol sy'n addas i'w gywiro wrth eu cyhoeddi.

**David Melding AC**

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

**28 Tachwedd 2006**